Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Bro Gwaun**
**Heol Dyfed**
**Abergwaun**
**Sir Benfro**
**SA65 9DT**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2019**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Bro Gwaun

Mae Ysgol Bro Gwaun yn ysgol gyfun gymysg, 11-16 oed, sydd wedi'i lleoli rhwng trefi Abergwaun ac Wdig yn Sir Benfro. Ar hyn o bryd, mae gan yr ysgol 534 o ddisgyblion ar y gofrestr, o gymharu â 621 o ddisgyblion pan arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn Ebrill 2012. Cyfran bresennol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw 15.2%, sydd ychydig yn is na chyfartaledd Cymru ar gyfer ysgolion uwchradd, sef 16.4%.

Mae'r ysgol wedi'i chategoreiddio fel ysgol 'Cyfrwng Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg'. Daw llawer o'r disgyblion o gartrefi Saesneg eu hiaith. Fodd bynnag, mae tua 27% o'r disgyblion yn rhugl eu Cymraeg a gall tua 68% arall o ddisgyblion siarad Cymraeg i ryw raddau. Mae Saesneg yn iaith ychwanegol i ryw 1% o ddisgyblion. Daw'r rhan fwyaf o'r disgyblion o gefndir gwyn Prydeinig.

Mae tua 26.6% o ddisgyblion yr ysgol ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig, sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru ar gyfer ysgolion uwchradd, sef 22.5%. Canran y disgyblion â datganiad o anghenion addysgol arbennig yw 2.1%, o gymharu â chyfartaledd o 2.2% ar gyfer Cymru gyfan. Mae gan yr ysgol ganolfan adnoddau anghenion arbennig yr awdurdod lleol ar gyfer disgyblion ag anghenion cymhleth, gyda 14 o ddisgyblion yn mynychu'r ganolfan ar hyn o bryd.

Penodwyd y pennaeth ym mis Medi 2017. Mae'r uwch dîm arwain yn cynnwys y pennaeth, un dirprwy bennaeth a thri uwch arweinydd arall.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae Ysgol Bro Gwaun yn gymuned ofalgar sy'n canolbwyntio'n frwd ar ddatblygu'i disgyblion yn ddinasyddion hyderus a chyfrifol. Mae'r perthnasoedd gwaith cadarnhaol rhwng staff a disgyblion yn gryfder nodedig yn yr ysgol. Mae'r disgyblion yn aelodau balch o gymuned yr ysgol ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Maent yn gwrtais tuag at eu cymheiriaid ac at staff ac ymwelwyr. Mae gan lawer o'r disgyblion agweddau cadarnhaol at ddysgu a chânt effaith gadarnhaol ar fywyd yr ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn mewn gwersi ac yn cyflawni'n dda mewn arholiadau allanol. Mae athrawon yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn creu amgylchedd dysgu cadarnhaol a chynhwysol yn llwyddiannus. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ar gyfer ymddygiad disgyblion a'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni.

Mae'r pennaeth yn cynnig arweinyddiaeth gadarn. Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer codi uchelgais pob disgybl a'u paratoi nhw at eu bywyd yn y dyfodol. Mae'r weledigaeth hon wedi'i chyfleu'n llwyddiannus i staff, disgyblion a rhieni, ac mae'n cyfrannu at yr ymdeimlad cryf o gymuned yn yr ysgol. Trwy waith tîm effeithiol, mae arweinwyr wedi sicrhau gwelliannau mewn meysydd allweddol o waith yr ysgol, fel deilliannau cyfnod allweddol 4, cyfraddau presenoldeb ac ymddygiad disgyblion.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella yn canolbwyntio’n briodol ar werthuso medrau disgyblion

A2 Sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg yn cyfateb i alluoedd pob disgybl a’u profiad academaidd blaenorol o’r iaith

A3 Gwella effeithiolrwydd addysgu mewn lleiafrif o wersi

A4 Gwella medrau disgyblion, yn enwedig eu uwch fedrau darllen, eu medrau meddwl a medrau ysgrifennu estynedig lleiafrif o ddisgyblion

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael ag argymhellion yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mewn gwersi a thros amser, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 4, mae disgyblion yn cyflawni'n dda yn gyffredinol ac yn gwneud mwy o gynnydd na'r disgwyl.

Mae gan lawer o ddisgyblion agwedd gadarnhaol tuag at eu gwaith. Maent yn adalw dysgu blaenorol yn dda ac yn ei gymhwyso'n briodol i sefyllfaoedd newydd. Er enghraifft, mewn gwersi mathemateg, mae disgyblion yn cymhwyso'u gwybodaeth am y cysylltiad rhwng ffracsiynau, canrannau a degolion yn effeithiol i gyfrifo newidiadau cyfrannol gan ddefnyddio lluosyddion.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar eu hathrawon. Mae llawer ohonynt yn hapus i rannu'u syniadau a gwneud cyfraniadau pwrpasol at drafodaethau grŵp neu ddosbarth, gan ddefnyddio terminoleg bynciol yn gywir ac yn hyderus. Dangosant barch tuag at farn disgyblion eraill ac maent yn gweithio'n dda mewn grwpiau bychain neu mewn parau. Er enghraifft, mewn gwersi celf, maent yn trafod yn aeddfed wrth gymharu a chyferbynnu'u gwaith â gwaith arlunwyr enwog. Mae ychydig ddisgyblion yn cynnig atebion byr yn unig i gwestiynau, neu nid oes ganddynt yr hyder i gyfrannu at drafodaethau dosbarth a thrafodaethau grŵp.

Mae llawer o ddisgyblion yn hyderus wrth sgimio a sganio amrywiaeth o destunau i ddethol gwybodaeth ddefnyddiol. Mae'r disgyblion hyn yn dangos dealltwriaeth gadarn o ystyr mewn testunau, maent yn lleoli ffeithiau yn gywir ac yn dewis gwybodaeth berthnasol i lywio'u barn. Er enghraifft, mewn addysg grefyddol, mae disgyblion yn darganfod ac yn gwerthuso gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau yn llwyddiannus wrth gymharu seremonïau geni Cristnogol ac Iddewig. Mae gan lawer o ddisgyblion amgyffrediad priodol o ddehongli darnau darllen a dod i gasgliad, er enghraifft wrth ddehongli ffynonellau ar ddelio â bywyd yn y ffosydd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

Mae llawer o ddisgyblion yn cynhyrchu gwaith ysgrifenedig sydd, ar y cyfan, yn dechnegol gywir ac yn defnyddio terminoleg bynciol yn dda mewn amrywiaeth o bynciau. Ysgrifennant yn bwrpasol ar gyfer amrywiaeth briodol o ddibenion a chynulleidfaoedd. Er enghraifft, ysgrifennant yn ddarbwyllol i lunio erthygl papur newydd ar fygythiadau i'n hamgylchedd mewn daearyddiaeth neu wrth ysgrifennu llythyr yn annog pobl eraill i ymweld â Chymru. Fodd bynnag, mae diffyg strwythur mewn gwaith ysgrifenedig lleiafrif o ddisgyblion ac maent yn gwneud camgymeriadau sillafu, atalnodi a gramadeg mynych. Mae ychydig ddisgyblion mwy abl yn llunio gwaith ysgrifenedig estynedig o ansawdd uchel, gyda defnydd effeithiol o eirfa penodol i genre a thechnegau llenyddol soffistigedig, fel trosiadau estynedig. Mewn llawer o achosion, mae disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion addysgol arbennig, yn prawf ddarllen ac ailddrafftio paragraffau er mwyn gwella'u gwaith.

Mae gan fwyafrif y disgyblion fedrau rhif sylfaenol datblygedig a dealltwriaeth gadarn o fesuriadau. Er enghraifft, mewn gwyddoniaeth, mae disgyblion yn gallu cyflawni cyfrifiadau yn ymwneud â chyflymder, pellter ac amser yn hyderus. Mae mwyafrif y

disgyblion yn gallu datrys problemau rhifiadol yn briodol. Er enghraifft, mewn mathemateg, maen nhw'n cyfrifo amseroedd hediadau yn llwyddiannus, sy'n gofyn am ystyried cylchfeydd amser gwahanol. Mae gan lawer o ddisgyblion fedrau graffigol cadarn ac maent yn gallu lluniadu graffiau cywir a'u dadansoddi'n briodol. Er enghraifft, mewn daearyddiaeth defnyddiant graffiau hinsawdd ar gyfer Llundain a Nairobi i gymharu a chyferbynnu hinsawdd y ddwy ddinas. Fodd bynnag, mae gan ychydig ddisgyblion fedrau rhifedd gwan. Nid oes ganddynt afael ddigonol ar fedrau rhif sylfaenol i allu cymhwyso'r medrau hyn mewn cyd-destun ac maent yn dod i gasgliadau sylfaenol yn unig o graffiau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) sylfaenol yn briodol ar draws y cwricwlwm i gyflwyno gwybodaeth a gwneud ymchwil. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'u uwch-fedrau TGCh yn addas ar draws y cwricwlwm. Mewn mathemateg, defnyddiant feddalwedd modelu i dynnu llun polygonau ac maent yn cymhwyso'u dealltwriaeth o fformiwlâu mewn taenlenni yn briodol mewn gwyddoniaeth, mathemateg a daearyddiaeth.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'u medrau creadigol yn briodol. Mewn technoleg bwyd, maent yn dyfeisio'r rysáit ar gyfer quiche ac yna'n ei goginio yn y wers ganlynol. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn datblygu'u medrau corfforol yn dda ac yn cymryd rhan yn hyderus mewn gwersi ymarferol, gan ddangos lefelau uchel o annibyniaeth. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 8 yn chwarae ac yn dyfarnu'u gêm hoci ac yn gwerthuso'u perfformiad cyn penderfynu ar faes allweddol i'w wella. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'u medrau meddwl yn briodol. Mewn gwyddoniaeth, mae disgyblion yn ystyried beth maen nhw eisiau ei ddysgu am y galon a pha gwestiynau y maen nhw eisiau atebion iddynt. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn datblygu'u medrau meddwl a'u medrau creadigol yn ddigon da.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae disgyblion wedi cyflawni'n dda ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 ac, yn gyffredinol, gwnânt fwy o gynnydd na'r disgwyl. Mae perfformiad pob grŵp o ddisgyblion, gan gynnwys y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn cymharu'n dda ar y cyfan â' pherfformiad mewn ysgolion tebyg. Ar ddiwedd Blwyddyn 11, mae bron pob un o'r disgyblion yn aros mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae llawer o ddisgyblion yn cyflawni cymhwyster TGAU lefel 2 mewn Cymraeg ail iaith ac mae ychydig ddisgyblion yn cyflawni cymhwyster TGAU lefel 2 mewn Cymraeg iaith gyntaf. Mae gan fwyafrif y disgyblion sy'n astudio Cymraeg iaith gyntaf afael cadarn ar yr iaith. Defnyddiant ystod addas o eirfa penodol i bwnc yn briodol wrth drafod manteision ac anfanteision rhoi organau. Nid oes hyder gan leiafrif o ddisgyblion i ymhelaethu ar eu hatebion. Wrth ysgrifennu, mae eu meistrolaeth ar eirfa sylfaenol yn gadarn ond mae eu gwaith ysgrifenedig yn cynnwys gormod o wallau. Mae llawer o ddisgyblion sy'n astudio Cymraeg ail iaith yn gallu cyfathrebu'n hyderus. Maen nhw'n llunio gwaith sydd wedi'i strwythuro'n dda wrth drafod pynciau fel bwyta'n iach ac ymarfer corff.

### Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ymfalchïo yn eu hysgol a'r gymuned leol. Mae awyrgylch teuluol ac ethos tîm yr ysgol yn agweddau cadarn ar fywyd yn Ysgol Bro

Gwaun. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn hapus yn yr ysgol ac yn trin eu cymheiriaid a'u staff gyda lefelau uchel o barch. Dangosant fedrau cymdeithasol datblygedig wrth ryngweithio ag ymwelwyr. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os bydd angen cymorth arnynt. Mae llawer o ddisgyblion yn teimlo bod gan yr ysgol feddwl mawr ohonynt a theimlant fod yr ysgol yn ymateb yn effeithiol i unrhyw bryderon a godir.

Yn gyffredinol, mae disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion addysgol arbennig, yn awyddus i ysgwyddo cyfrifoldebau yn yr ysgol. Mae cynghorau dosbarth, blwyddyn ac ysgol gyfan wedi'u sefydlu'n dda ac yn chwarae rhan weithgar mewn penderfyniadau. Er enghraifft, mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig wedi cyfrannu at hyfforddiant staff trwy greu fideos yn esbonio'r dulliau addysgu sy'n well ganddynt. Mae gwaith y cyngor ysgol wedi arwain at newidiadau penodol, fel newidiadau i'r system giwio yn y ffreutur. Mae 'undeb y gofalwyr ifanc' yn gweithio'n effeithiol i godi ymwybyddiaeth a chynnig cymorth buddiol i ofalwyr ifanc yn yr ysgol ac mewn ysgolion cynradd partner. Mae bron pob un o'r disgyblion ym Mlwyddyn 11 yn dangos medrau arwain cadarn a chyfrifoldeb wrth gynnal amrywiaeth o weithgareddau rheolaidd i ddisgyblion iau.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda yn y dosbarth ac o gwmpas yr ysgol. Maent yn cyrraedd gwersi yn brydlon, yn ymdawelu'n gyflym ac yn gwrando'n astud ar eu hathrawon. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos agwedd gadarnhaol at eu dysgu ac yn canolbwyntio drwy gydol y wers. Maent yn gweithio'n gynhyrchiol mewn parau neu grwpiau bychain, gan eu cefnogi'i gilydd yn dda. Er enghraifft, mewn hanes, maent yn gweithio'n ddiwyd mewn grwpiau bychain wrth drafod dibynadwyedd gwahanol ffynonellau. Ymatebant yn gadarnhaol i gyfraniadau eu cymheiriaid, er enghraifft wrth drafod manteision ac anfanteision cyfreithloni'r defnydd o gyffuriau gwella perfformiad mewn chwaraeon. Mae mwyafrif y disgyblion yn awyddus i ddysgu a dangosant wydnwch pan fydd tasgau heriol yn eu hwynebu. Maent yn ymdrechu i ddatrys problemau'n annibynnol cyn gofyn i'w hathro am gymorth.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda fel dinasyddion moesegol a goddefgar, gan wneud cyfraniadau gwerthfawr at y gymuned trwy elusennau lleol a chenedlaethol. Maent wedi trefnu digwyddiadau niferus a chasglu symiau mawr o arian ac adnoddau, er enghraifft cyfraniadau at y Banc Bwyd lleol, Ysbyty Felindre ac Ymchwil Canser.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn deall sut i gadw'n ddiogel ar-lein ac mae llawer o ddisgyblion yn dangos gwerthfawrogiad o bwysigrwydd bwyta'n iach. Er enghraifft, mewn gwersi technoleg bwyd a gwyddoniaeth, maent yn trafod y plât bwyta'n iach a gwerthoedd maethol yn hyderus. Deallant bwysigrwydd ymarfer corff ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo bod digon o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau, fel dawns a rygbi. Nodwedd gref yw'r rôl arwain yr ymgymerwyd â hi gan ychydig ddisgyblion sy'n gweithio fel arweinwyr ifanc yn y clybiau hyn.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae presenoldeb wedi gwella ac, yn 2019, mae ymhell uwchlaw presenoldeb mewn ysgolion tebyg.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn meithrin perthnasoedd gwaith cadarnhaol gyda'u dosbarthiadau. Maent yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn creu amgylchedd dysgu cefnogol a chadarnhaol yn llwyddiannus. Mae ganddynt wybodaeth gadarn am eu pwnc a defnyddiant arferion defnyddiol sy'n sicrhau bod disgyblion yn ymdawelu'n gyflym ac yn barod i ddysgu.

Mae llawer o'r athrawon yn amlinellu amcanion dysgu clir i roi pwrpas a strwythur i'r wers. Mae'r athrawon hyn yn defnyddio gwaith grŵp a phâr yn effeithiol i ychwanegu at ddysgu'r disgyblion ac i gyfrannu at ddatblygiad medrau llefaredd a medrau cymdeithasol ehangach.

Mae gan lawer o athrawon ddisgwyliadau uchel ar gyfer ymddygiad disgyblion a'r hyn y gallant ei gyflawni. Maent yn cynllunio gweithgareddau heriol sy'n ennyn diddordeb disgyblion ac yn adeiladu'n dda ar eu dysgu blaenorol. Maent yn rhoi adborth llafar defnyddiol i ddisgyblion ac yn monitro'u cynnydd yn agos. Mae'r athrawon hyn yn darparu meini prawf llwyddiant clir i ddisgyblion fel eu bod yn gallu gwerthuso'u perfformiad eu hunain a gwella'u gwaith.

Mae llawer o athrawon yn gofyn cwestiynau defnyddiol sy'n gwirio gwybodaeth disgyblion a'u gallu adalw. Mae lleiafrif yn gofyn cwestiynau sy'n herio dealltwriaeth disgyblion ac yn eu hannog i feddwl yn ddwfn ac ymestyn eu hatebion.

Mewn lleiafrif o achosion, nid yw athrawon yn cynllunio gwersi yn ddigon gofalus i sicrhau bod disgyblion yn datblygu'u medrau dysgu annibynnol. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn gorgyfeirio'r dysgu, sy'n cyfyngu ar ymgysylltiad disgyblion a'u cyfleoedd i weithio'n annibynnol neu mewn grwpiau bychain. Mewn ychydig enghreifftiau, nid yw gweithgareddau wedi'u paru'n ddigonol â gallu disgyblion neu nid ydynt yn adeiladu'n ddigon da ar eu dysgu blaenorol.

Mae llawer o athrawon yn rhoi adborth adeiladol a buddiol ar waith disgyblion, gan ddangos yn glir iddynt sut y gallant wella. Maent yn sicrhau bod disgyblion yn mynd i'r afael ag unrhyw gamgymeriadau sillafu, atalnodi a gramadeg, ac yn eu cywiro.

Yn y rhan fwyaf o feysydd pwnc, mae'r cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 3 yn adeiladu'n briodol ar waith cyfnod allweddol 2. Mae cysylltiadau ag ysgolion cynradd partner yn gadarn ac mae'r trefniadau pontio'n effeithiol ac yn cael eu gwerthfawrogi. Yng nghyfnod allweddol 4, mae'r ysgol yn cynnig amrediad cynhwysfawr o gyrsiau gwerthfawr sy'n berthnasol i fro'r disgyblion a'u diddordebau. Er enghraifft, mae'n cynnig cyrsiau adeiladu a ffermio.

Mae cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu'u dealltwriaeth o dreftadaeth a diwylliant Cymru trwy weithgareddau fel y 'Caffi Cymraeg', yr eisteddfod ysgol flynyddol, cymryd rhan yn yr eisteddfod genedlaethol ac astudio unedau gwaith ar eu hardal leol yn y dyniaethau. Yng nghyfnod allweddol 3, mae'r ysgol wedi cymryd camau priodol yn ddiweddar i gryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad medrau Cymraeg disgyblion. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion cyfnod allweddol 4 yn dilyn cwrs Cymraeg sy'n briodol i'w profiad addysgol blaenorol.

Mae gan yr ysgol gynlluniau dilys yn amlinellu sut y gallai roi'r cwricwlwm newydd i Gymru ar waith. Mae'n peilota dull buddiol o addysgu'r dyniaethau i grŵp o

ddisgyblion Blwyddyn 7. Mae grwpio disgyblion yn darparu'n dda ar gyfer anghenion pob dysgwr, yn enwedig disgyblion ag anghenion addysgol arbennig a disgyblion agored i niwed. Mae'r ysgol yn cynnig darpariaeth bwrpasol oddi ar y safle i'r ychydig bach iawn o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 sydd mewn perygl o ymddieithrio.

Mae'r ysgol yn cynnig amrediad eang o weithgareddau allgyrsiol gwerthfawr sy'n cysylltu'n fuddiol â gwaith yn yr ystafell ddosbarth. Mae enghreifftiau'n cynnwys teithiau i'r theatr, teithiau o ddiddordeb hanesyddol a phrosiectau gwerthfawr i gyfoethogi dysgu'r disgyblion mwy abl.

Mae strategaethau ymyrraeth yr ysgol i ddisgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt yn nodwedd gref. Mae disgyblion â medrau llythrennedd a rhifedd gwan yn cael ymyriadau effeithiol a gwerthfawr sydd wedi'u haddasu i'w hanghenion. Yng nghyfnod allweddol 4, mae disgyblion â medrau llythrennedd a rhifedd gwan yn cael cymorth ychwanegol drwy gydol y flwyddyn a chaiff eu cynnydd ei fonitro'n effeithiol.

Mae llawer o adrannau yn cynllunio a gweithredu amrywiaeth o weithgareddau ysgogol yn llwyddiannus i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion. Er enghraifft, mewn gwyddoniaeth, mae disgyblion yn defnyddio'u medrau TGCh i adeiladu cronfa ddata wrth drafod gorsafoedd pŵer. Fodd bynnag, mewn ychydig achosion, nid yw tasgau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn cynnig lefelau addas o her i bob disgybl. Mae systemau i fonitro a gwerthuso cynnydd disgyblion mewn medrau trwy gasglu tystiolaeth uniongyrchol yn effeithiol wedi'u tanddatblygu.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae Ysgol Bro Gwaun yn gymuned agos, ofalgar, sy'n hyrwyddo cynwysoldeb a lles disgyblion yn arbennig o dda. Mae'r ysgol yn cynnig cymorth ac arweiniad buddiol i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig ac anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol. Mae gan staff ddealltwriaeth fanwl o anghenion a chefndiroedd disgyblion unigol a defnyddiant y ddealltwriaeth hon yn sensitif i roi cymorth iddynt.

Mae'r ysgol yn casglu gwybodaeth ddefnyddiol yn systematig i olrhain a monitro cynnydd, presenoldeb ac ymddygiad grwpiau gwahanol o ddisgyblion. Mae hyn wedi cyfrannu at welliannau mewn deilliannau yng nghyfnod allweddol 4 a chynnydd nodedig mewn cyfraddau presenoldeb. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd buddiol o'r wybodaeth a gesglir i sicrhau cymorth ac ymyriadau amserol, wedi'u personoli, i ddisgyblion. Hefyd, mae staff yn defnyddio'r wybodaeth hon yn fedrus i ddathlu cyflawniadau disgyblion gyda galwad ffôn ar ddydd Gwener i rieni a gofalwyr. Mae gwiriadau cynnydd ac adroddiadau blynyddol disgyblion yn bersonol iawn. Maent yn amlygu cyflawniadau disgyblion a'u hagweddau at ddysgu yn dda. Maent yn darparu gwybodaeth werthfawr i rieni ynghylch y camau nesaf mewn dysgu. Mae'r ysgol yn llwyddo i helpu rhieni i gefnogi dysgu a lles eu plant. Er enghraifft, mae'r ysgol yn cynnal boreau coffi yn rheolaidd i rieni a gofalwyr drafod anghenion penodol eu plant.

Mae'r trefniadau i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gadarn. Mae'r ysgol yn nodi anghenion disgyblion unigol trwy brosesau pontio effeithiol a gwybodaeth asesu gwaelodlin. Mae'r ddarpariaeth yn drylwyr ar draws yr ysgol ac

mae pob cynllun addysg unigol yn cynnwys targedau a strategaethau perthnasol i hyrwyddo cyflawniad a chynnydd.

Mae staff yn cael cymorth gwerthfawr i'w helpu i addasu'r ddarpariaeth i fodloni anghenion disgyblion ag anghenion addysgol arbennig drwy'r strategaethau a'r adnoddau buddiol ar ddangosfwrdd digidol yr ysgol. Mae'r ddarpariaeth hynod effeithiol yn 'Harbwr' ac 'Enfys' yn darparu ymyriadau ysgogol a phwrpasol i'r disgyblion hyn. Er enghraifft, datblygant eu hyder a'u cynnydd wrth ddarllen trwy ddarllen ar goedd i gwningen. O ganlyniad i'r ddarpariaeth sensitif a phwrpasol, mae'r disgyblion hyn yn hapus iawn ac yn gwneud cynnydd effeithiol. Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda ag amrywiaeth o asiantaethau allanol fel y 'Fferm Ysgol' a gweithiwr ieuenctid i ymestyn ymhellach y ddarpariaeth gwricwlaidd a datblygu medrau bywyd disgyblion ag anghenion addysgol arbennig.

Mae'r berthynas waith rhwng staff a disgyblion yn gadarnhaol iawn ac yn adlewyrchu'r ymdeimlad cryf o gymuned yn yr ysgol. Mae gan yr ysgol drefniadau cyson a buddiol i feithrin diwylliant cadarnhaol ynghylch ymddygiad. Mae canmol a dathlu llwyddiant yn ganolog i hyn ac yn elfen allweddol o'r ethos cryf sydd wedi'i ddatblygu yn Ysgol Bro Gwaun. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar allu'r rhan fwyaf o ddisgyblion i reoli'u hymddygiad eu hunain yn briodol.

Mae cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion addysgol arbennig, i wneud penderfyniadau am fywyd a gwaith yr ysgol. Mae strwythur cadarn y cyngor ysgol yn llwyddo i alluogi disgyblion i ddylanwadu ar benderfyniadau ar lefel ysgol.

Mae perthnasoedd cadarnhaol a threfniadau pontio wedi'u cynllunio'n dda gydag ysgolion cynradd lleol i helpu disgyblion Blwyddyn 7 i ymgartrefu'n dda. Mae cyfleoedd i ddisgyblion ysgol gynradd ymweld â'r ysgol, fel y gweithgarwch 'Cows on Tour' amaethyddol yn y gymuned, yn ategu trefniadau pontio'r ysgolion yn effeithiol. Mae mentrau targedig eraill yn cynnwys rhaglenni buddiol fel 'Bwrlwm' a 'Bwrlwm Bach', lle y mae disgyblion yn treulio cyfnod yn yr ysgol cyn pontio er mwyn datblygu'u medrau Cymraeg.

Mae ffocws cryf ar ddatblygu rôl yr ysgol yn y gymuned leol gydag amrywiaeth eang o weithgareddau sy'n galluogi disgyblion i feithrin perthnasoedd cadarnhaol yn eu hardal. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi meithrin cysylltiadau buddiol â busnesau lleol i gynnig amrywiaeth o brofiadau gwerthfawr i ddisgyblion yn 'Gwaun Fest'.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol i gyflwyno rhaglen gref o addysg bersonol a chymdeithasol. Mae hon yn cynnwys rhaglen strwythuredig ar 'ymwybyddiaeth ofalgar', sesiynau gwerthfawr gan swyddog cyswllt yr heddlu a gwasanaethau dyddiol ar faterion fel 'delwedd y corff'. Gwna'r rhaglen hon gyfraniad buddiol at ddealltwriaeth disgyblion o gydraddoldeb ac amrywiaeth, ac at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion.

Mae trefniadau buddiol o fewn yr ysgol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae gweithgareddau mewn gwersi, fel gwyddoniaeth, addysg bersonol a chymdeithasol, Cymraeg a thechnoleg, yn ategu'r trefniadau hyn yn dda.

Mae'r ysgol yn darparu gweithgareddau allgyrsiol gwerthfawr i hyrwyddo iechyd a datblygiad cymdeithasol disgyblion. Trefnir gweithgareddau cynhwysfawr i

ddisgyblion adeg amser cinio ac ar ôl ysgol, fel y clwb tractorau, y 'Caffi Cymraeg' a chynyrchiadau cerddoriaeth a drama'r ysgol. Mae cyflawniadau disgyblion yn cael eu dathlu'n dda mewn gwasanaethau dyddiol i feithrin cyfranogiad allgyrsiol a balchder yn yr ysgol. Mae ffocws ar hyrwyddo gwerthoedd personol, er enghraifft dathlu chwarae teg y tîm rygbi.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Ers iddo gael ei benodi yn 2017, mae'r pennaeth wedi datblygu gweledigaeth glir i'r ysgol ar sail codi uchelgais yr holl ddisgyblion a'u paratoi at fywyd yn y dyfodol. Caiff ei gefnogi'n dda gan ei dîm arwain. Maent yn cydweithio'n effeithiol ac yn rhannu ymdeimlad cadarn o bwrpas ac ymrwymiad i werthoedd yr ysgol, a adlewyrchir yn arwyddair yr ysgol, sef 'Angori doeth, dyfodol disglair'. Mae uwch arweinwyr wedi llwyddo i sicrhau gwelliannau yn neilliannau a lles disgyblion.

Mae uwch arweinwyr wedi sefydlu llinellau cyfathrebu clir i sicrhau bod gan yr holl aelodau staff ddealltwriaeth gadarn o ddisgwyliadau a blaenoriaethau'r ysgol. Mae hyn wedi arwain at ymdeimlad cryf o bwrpas cyffredin ar draws yr ysgol, sydd wedi cyfrannu'n gadarnhaol at ysbryd y staff.

Mae rolau a chyfrifoldebau uwch arweinwyr yn canolbwyntio'n glir ar wella lles disgyblion a safonau eu gwaith. Mae'r trefniadau rheolaeth llinell yn drylwyr ac yn sicrhau cymorth a her effeithiol i arweinwyr canol yn eu meysydd cyfrifoldeb.

Mae gan yr ysgol drefniadau pwrpasol ar gyfer rheoli perfformiad staff. Mae amcanion yn perthyn yn uniongyrchol i flaenoriaethau gwella'r ysgol ac yn cefnogi datblygiad proffesiynol unigol yn dda. Mae arweinwyr wedi llwyddo i ddatblygu diwylliant sy'n hyrwyddo ac yn rhoi pwys ar ddysgu parhaus i'r holl staff. Caiff athrawon amrediad eang o gyfleoedd i rannu arfer dda o fewn yr ysgol a'r tu allan iddi. Maent yn dechrau archwilio ffyrdd newydd o addysgu, trwy brosiectau ymchwil ar draws pob maes dysgu.

Mae gan lawer o arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu. Defnyddiant arsylwadau gwersi a chraffu ar lyfrau disgyblion, yn ogystal â barn disgyblion a rhanddeiliaid ehangach, i helpu gwerthuso gwaith yr ysgol. Er enghraifft, ceisiodd yr ysgol farn rhieni am effeithiolrwydd ei diweddariadau ar ddysgu ac addysgu yn llwyddiannus, a chafodd yr ysgol wybodaeth ddefnyddiol am arferion darllen y disgyblion gartref. Ar y cyfan, fodd bynnag, nid yw prosesau hunanwerthuso'n canolbwyntio'n ddigon da ar safonau medrau disgyblion mewn gwersi ac mewn llyfrau.

Mae prosesau gwella'r ysgol wedi arwain at gynnydd nodedig mewn nifer o feysydd pwysig dros y tair blynedd diwethaf. Er enghraifft, mae ffocws ar ddatblygu balchder, ethos a lles wedi helpu i ostwng cyfraddau gwaharddiadau disgyblion a gwella presenoldeb a chyrhaeddiad y disgyblion. Mae prosesau gwella yn adlewyrchu blaenoriaethau ysgol gyfan a blaenoriaethau penodol i adran yn dda.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol o'r ysgol ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'i chryfderau a'i gwendidau.  Maent yn cynnig cymorth a her werthfawr i'r holl arweinwyr ac yn cysylltu'n effeithiol ag adrannau unigol.

O dan oruchwyliaeth y corff llywodraethol, mae uwch arweinwyr yn sicrhau bod eu penderfyniadau gwariant yn cyd-fynd yn dda â blaenoriaethau gwella'r ysgol.  Mae bwrdd cyllid yr ysgol yn rheoli'r gyllideb yn effeithiol, gan ganiatáu i arweinwyr fuddsoddi mewn adnoddau a gwaith adnewyddu i wella'r ysgol.  Mae hyn wedi helpu i sicrhau bod adeiladau'r ysgol yn cynnig amgylchedd cyfforddus ac ysgogol, lle y mae disgyblion yn dysgu ac yn ffynnu.  Mae'r ysgol yn defnyddio cyllid grant, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion, yn effeithiol.  Mae hyn wedi helpu i sicrhau deilliannau cadarn a gwella presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a’r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle y bo’n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth, ac mewn ardaloedd awyr agored
- lle y bo’n briodol, yn ymweld â’r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu’r disgyblion
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle y bo’n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 09/12/2019